

## LEWIS, THOMAS (1823 - 1900), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a hanesydd

**Enw:** Thomas Lewis  
**Dyddiad geni:** 1823  
**Dyddiad marw:** 1900  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a hanesydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** William Joseph Rhys

Ganwyd 3 Awst 1823 ym mhlwyf Llandeilo'r-fan, Brycheiniog. Symudodd y teulu yn 1829 i Gwmdŵr, a bedyddiwyd y mab yno yn 1837. Gweithiai mewn ffatrïoedd gwllân yng Nghwmdŵr a Llanwrtyd. Dechreuodd bregethu yn 1840 ym Mhantycelyn. Addysgwyd ef yn Horeb (Cwmdŵr), ysgol 'Brutus' ger Pentrebach, ysgol D. Williams (Annibynnol) yn Nhredwstan, ac athrofa Pontypŵl. Bu'n weinidog yn Llanddewi Rhydderch, 1848-56; Llanelli, sir Frycheiniog, 1856-9; Jerusalem, Rhymni, 1860-3; Penuel, Caerfyrddin, 1863-74; Moreia, Risca, 1874-80. Ymneilltuodd i Gasnewydd. Cyhoeddodd *Cofiant ... Titus Lewis, Caerfyrddin; Cofiant ... James Richard, Pontypridd; Ymddygiad y Feibl Gymdeithas Frytanaid a Thramor at y Bedyddwyr; Esboniad y Teulu*. Ymddangosodd ei *Hunangofiant* yn 1903. Y mae ei 'Hanes Eglwysi'r Bedyddwyr ym Mynwy hyd 1890,' mewn llawysgrif yn niogelfa'r sir yn Abercarn. Ysgrifennodd lawer i'r cylchgronau, i *Geiriadur Bywgraffyddol* (J.T. J.), *Geiriadur 'Mathetes,'* a'r *Gwyddoniadur*. Bu farw 2 Rhagfyr 1900.

### Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

### Ffynonellau

*Seren Gomer*, 1901, 1902

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734497

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Rhys, W. J., (1953). LEWIS, THOMAS (1823 - 1900), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a hanesydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-THO-1823>

CC BY-NC-ND

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government